

# Cynlluniau Gwersi

Adnoddau addysgu a grëwyd gan Rachel Cook ym Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**Mabwysiadu**
Canolbarth a Gorllewin Cymru
**Adoption**
Mid & West Wales

# Cynllun Gwers

Pwnc ABGI: hunan-barch

## Amcanion Dysgu

Mynegi teimladau cadarnhaol amdanyn nhw eu hunain; datblygu hunan-barch
Cryfhau eu hunaniaeth eu hunain
Gwerthfawrogi nodweddion cadarnhaol unigolion eraill

## Deunyddiau

y llyfr - Y Bwmpen Berffaith Amherffaith
bwrdd gwyn/siart troi
6 stribed o bapur i bob disgybl (taflen i'w hargraffu wedi'i hatodi)
pennau ysgrifennu/pensiliau

## Gweithgareddau

Darllenwch y stori 'Y Bwmpen Berffaith Amherffaith'
Ewch ati i gael trafodaeth grŵp ynghylch hunan-barch. Beth ym marn y disgyblion yw hunan-barch? Hunan-barch yw sut rydych yn teimlo amdanoch chi eich hun. Gall y teimladau hyn newid wrth i bethau yn eich bywyd newid. Hunan-barch yw eich gwerth chi yn eich barn chi a pha mor bwysig rydych yn ei deimlo. Mae hunan-barch iach yn rhoi'r dewrder ichi roi cynnig ar bethau newydd a gwneud dewisiadau da.

Anogwch y disgyblion i feddwl ynghylch y canlynol - Sut ydyn ni i gyd yn wahanol? Anogwch y disgyblion i feddwl am y gwahaniaethau corfforol a'r gwahaniaethau nad ydyn nhw'n gorfforol. Gall y gwahaniaethau corfforol gynnwys lliw gwallt, lliw llygaid, lliw croen, taldra, pwysau ac ati. Gall y gwahaniaethau nad ydyn nhw'n rhai corfforol gynnwys hoff gerddoriaeth, hoff fwyd, diddordebau, hoff bethau a chas bethau, byw mewn teuluoedd gwahanol, anableddau, gwahanol ddoniau ac ati. Gellir ysgrifennu'r rhain fel grŵp neu yn unigol.

Meddyliwch am y gair unigryw, sy'n cael ei ddefnyddio yn y llyfr, a beth mae'n ei olygu.

Rhowch 6 stribed o bapur i bob disgybl a gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu arnyn nhw, sef tri pheth maen nhw'n eu hoffi amdanyn nhw eu hunain a thri pheth maen nhw'n gallu eu gwneud yn dda. Gall y rhain fod yr un pethau. Gofynnwch i wirfoddolwyr rannu enghreifftiau o'r hyn y gwnaethon nhw ei ysgrifennu. Defnyddiwch y stribedi sy'n nodi cryfderau'r disgyblion i greu cadwyn bapur, gan eu cysylltu â'i gilydd i greu cadwyn o gryfderau. Tynnwch sylw at y ffaith bod gan bawb gryfderau a bod y cryfderau hyn yn rhan o'r hyn sy'n ein gwneud yn unigryw ac yn arbennig. Mae'r ffaith ein bod ni i gyd yn wahanol hefyd yn rhan o'r hyn sy'n gwneud y byd yn ddiddorol.

# Cynllun Gwers

Pwnc

ABGI: hunan-barch a chyfeillgarwch

## Amcanion Dysgu

gwybod sut i fod yn ffrind da
defnyddio geirfa ffrind da
deall sut i wneud gweithredoedd er mwyn ymddwyn fel ffrind da

## Deunyddiau

y llyfr - Y Bwmpen Berffaith Amherffaith
bwrdd gwyn/siart troi
crochan - taflen i'w hargraffu wedi'i hatodi
pennau ysgrifennu/pensiliau
blwch/jar addurnedig
nodiadau gludiog

## Gweithgareddau

Ar ôl darllen y llyfr 'Y Bwmpen Berffaith Amherffaith'...

Trafodwch y cyfeillgarwch sydd rhwng y wrach a'r Bwmpen. Sut oedd caredigrwydd y wrach wedi gwneud i'r Bwmpen deimlo'n dda? Gofynnwch: Pam y mae cyfeillgarwch yn bwysig i ni? Anogwch y disgyblion i feddwl am wahanol weithredoedd o garedigrwydd a sut gallan nhw fod yn ffrind ac yn gyd-ddisgybl da? Pa nodweddion sydd eu hangen i fod yn ffrind da? Fel grŵp, meddyliwch am rai syniadau ar gyfer bod yn ffrind da a'u hysgrifennu ar y bwrdd gwyn/siart troi. Os yw'r disgyblion yn cael trafferth meddwl am rinweddau, defnyddiwch yr awgrymiadau canlynol ar gyfer rhinweddau sy'n perthyn i ffrind da: Mae ffrindiau da yn gwrando ar ei gilydd. Mae ffrindiau da yn garedig tuag at ei gilydd a dydyn nhw ddim yn dweud pethau cas am ei gilydd nac yn brifo teimladau ei gilydd. Mae ffrindiau da yn onest gyda'i gilydd. Gall ffrindiau da anghytuno ond gallan nhw fod yn ffrindiau o hyd. Gall ffrindiau da ddibynnu ar ei gilydd. Gall ffrindiau da geisio helpu ei gilydd. Mae ffrindiau da yn poeni am ei gilydd. Mae ffrindiau da yn ein derbyn ni am bwy ydyn ni.


Gwaith annibynnol/pâr - gofynnwch i ddisgyblion greu rysáit/diod hudol ar gyfer cyfeillgarwch.
Gallai gynnwys pethau fel llwyaid o'r gallu i wrando, tamaid bach o ofal ac ati.

## Estyniad

Anogwch y disgyblion i feddwl sut maen nhw'n teimlo pan fo rhywun yn garedig tuag atyn nhw, sut maen nhw'n teimlo pan fyddan nhw'n gwneud rhywun yn hapus neu'n codi calon rhywun sy'n drist? Mae bod o gymorth a bod yn gyfeillgar i eraill yn gallu gwneud ichi deimlo'n dda. Un ffordd sy'n gwneud i bawb deimlo'n dda yw dweud rhywbeth dymunol wrth gyd-ddisgybl neu ffrind amdano ef neu hi. Gelwir y geiriau dymunol hynny yn ganmoliaeth. Anogwch rai gwirfoddolwyr i roi canmoliaeth i gyd-ddisgybl. Atgoffwch y grŵp ei bod hi hefyd yn dda rhoi canmoliaeth i ni ein hunain hefyd.

Ewch ati i greu blwch canmol neu werthfawrogi ar gyfer y dosbarth gan ddefnyddio tameidiau bach o bapur neu nodiadau gludiog. Gall yr athro a'r disgyblion adael nodyn yn canmol neu'n gwerthfawrogi yn y blwch i gyd-ddisgyblion. Efallai y bydd angen modelu hyn ychydig ac annog y disgyblion i wneud hyn. Bob ychydig ddyddiau, tynnwch y nodiadau o werthfawrogiad neu ganmoliaeth o'r blwch a'u darllen yn uchel.

# DIOD HUDOL AR GYFER CYFEILLGARWCH



# Syniadau Eraill

Dyma ragor o syniadau/gweithgareddau y gellir eu gwneud ar ôl darllen y stori 'Y Bwmpen Berffaith Amherffaith'

Edrychwch ar gylch bywyd pwmpen a'r pethau sydd eu hangen arni i dyfu.
Edrychwch ar wahanol rannau o bwmpen; y croen, y coesyn, y blodyn, yr hadau, y mwydion, y llinynnau ac ati.

Mesurwch a phwyswch bwmpenni, gan arbrofi â phwmpenni gwahanol feintiau. Ydyn nhw'n arnofio neu'n suddo? Beth sy'n digwydd os ydych yn gwacáu'r bwmpen? Cyfrwch hadau pwmpen a'u didoli'n grwpiau o ddeg.

Wrth archwilio'r gwahaniaethau corfforol yn y dosbarth, cyfrwch faint o bobl sydd â llygaid glas/llygaid brown, gwallt golau ac ati. Ewch ati i greu graff.

Defnyddiwch dempled pwmpen neu blatiau papur i addurno ac i greu eich pwmpen berffaith eich hun.
Peintiwch eich dwylo i greu printiau llaw gan roi oren ar gledr y llaw a gwyrdd ar y bysedd i greu dwylo pwmpen. Pan fydd y paent yn sych, ychwanegwch wynebau gwahanol i'r pwmpenni er mwyn cyfleu gwahanol deimladau.

Archwiliwch dymor yr hydref a'r newidiadau sy'n digwydd ym myd natur.

Ewch ar helfa/taith sborion hydrefol. Casglwch ddail yr hydref a defnyddiwch greonau cwyr i rwbio patrymau dail ar bapur/gwneud symudyn o ddail.

Ewch ati i greu gludwaith 'myfi fy hun', gan archwilio'r holl bethau sy'n ein gwneud ni'n unigryw, neu anogwch y plant i dynnu amlinell o'u dwylo ac addurno'r amlinelliad â phethau maen nhw'n hoffi eu gwneud. Gellir defnyddio'r rhain mewn arddangosfa yn y dosbarth. Anogwch y disgyblion i gydnabod y gallai fod rhai tebygrwydd a rhai gwahaniaethau rhyngddyn nhw ac mai dyma sy'n gwneud pawb yn ddiddorol.

Gwnewch Bastai Bwmpen neu Gawl Pwmpen. Addurnwch fisgedi siâp deilen neu bwmpen.

Gwnewch does sbeis o bwmpen. Gwnewch flychau synhwyraidd hydrefol gan ddefnyddio dail, mes ac ati.

Meddyliwch am garedigrwydd. Beth mae'n ei olygu a sut gallwn ni ddangos caredigrwydd? Ewch ati i wneud gweithredoedd o garedigrwydd ar hap neu greu arddangosfa yn yr ysgol am fod yn garedig.

Dywedwch 'Bw!' wrth fwlio. Defnyddiwch yr enghraifft yn y llyfr lle mae eraill yn chwerthin am ben y bwmpen. Meddyliwch am y teimladau sy'n gysylltiedig â bwlio. Sut mae'n edrych, yn swnio, neu'n teimlo? Beth allwn ni ei wneud ynghylch bwlio? Beth allwn ni ei wneud os ydyn ni'n teimlo'n drist neu'n unig?

